

Polisi Gwastraff Cyfrinachol

CBSC – Uned Llywofraethu Gwybodaeth - Hydref 2012

Fersiwn	Disgrifiad/rheswm dros y newid	Awdur	Awdurdod	Dyddiad cyhoeddi
1	Cyhoeddiad gwreiddiol	IWO (IRU)		3/2006
2	Adolygiad	IWO (IRU)		8/2009
3	Adolygiad	DOC/(IGU)		10/2012
3.1	Diwygiadau	DS (CICS)		29/10/2012

POLISI GWASTRAFF CYFRINACHOL

1 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae trefn lywodraethu gwybodaeth y Cyngor yn amlinellu'r safonau polisi isafswm ar gyfer cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd gwybodaeth. Mae'n trafod y meysydd cydymffurfiad diogelu data, diogelwch gwybodaeth (safon ISO 17799), ansawdd data a chyfrinachedd, sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd.
- 1.2 Pwrpas y polisi hwn yw cynnig arweiniad a ffurfioli'r broses ar gyfer gwaredu gwastraff, sy'n cynnwys manylion personol neu fanylion sy'n sensitif i'r sefydliad drwy ddulliau diogel.
- 1.3 Dylai holl weithwyr y Cyngor gadw at a gweithredu egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 wrth ddelio â gwybodaeth am unigolion byw y gellid eu hadnabod. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â staff yn ogystal â'r cyhoedd. Mae seithfed egwyddor Deddf Diogelu Data 1998 yn nodi:
- 'Dylid cyflwyno mesurau technegol a sefydliadol priodol yn erbyn prosesu data personol heb awdurdod neu'n anghyfreithlon, ac yn erbyn colli neu ddiinistrio neu ddirodi data personol drwy ddamwain'.*
- 1.4 Gallai gwaredu gwybodaeth yn ddiofal ar unrhyw gyfrwng arwain at dor-cyfrinachedd ac/neu beryglu uniondeb y Cyngor. Mae'r grym gan y Comisiynydd Gwybodaeth i gyflwyno cosbau ariannol sifil ar sefydliadau sy'n torri'r seithfed egwyddor.

2 TREFNAU AR GYFER GWAREDU GWASTRAFF CYFRINACHOL YN DDIOGEL

- 2.1 Dylai gwybodaeth gael ei dinistrio yn unol ag Atodlenni Cynnal Cymeradwy'r Cyngor lle bod hynny'n berthnasol.
- 2.2 Dylid rhwygo cyfryngau papur (gan gynnwys copïau, gwybodaeth a argraffwyd o'r cyfrifiadur, labeli cyfeiriad) sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol neu wybodaeth arall sy'n sensitif i'r cyngor gyda pheiriant rhwygo. Os bydd gwaredu'n digwydd oddi ar y safle, mae'n rhaid bod rheolaeth briodol ar waith gan y cwmni dan sylw i atal colli'r wybodaeth.
- 2.3 Dylid storio cyfryngau papur a fwriadwyd ar gyfer eu gwaredu mewn modd cyfrinachol mewn cynwysyddion diogel, y gellir eu cloi cyn eu gwaredu. Dylid labelu'r cynwysyddion yn glir fel 'Gwastraff Cyfrinachol.' Ni ddylid gosod unrhyw wastraff cyfrinachol ar unrhyw gyfrif mewn mathau eraill o gynwysyddion gwastraff e.e. rhai ar gyfer ailgylchu arferol, biniau ar olwynion, sgiapiau ac ati.

Polisi Gwastraff Cyfrinachol Fersiwn 3.1

Gall rhwygo ar y safle gael ei gyflawni gan naill ai:

a) Staff y cyngor gan ddefnyddio peiriant rhwygo sy'n torri ar draws;

neu

b) Contractwr allanol dan Contract Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol yn cynnwys cymalau cyfrinachedd ac indemniadau priodol.

- 2.4 Dylid rhoi sylw penodol i gyfleusterau gwaredu gwastraff lle mae staff yn rhannu llungopiwyd neu argraffwyr. Gellid ystyried y rhain yn safleoedd addas ar gyfer peiriannau rhwygo neu gynwysyddion gwastraff cyfrinachol.
- 2.5 Dylid gwneud trefniadau i wagio pob cynhwysydd gwastraff cyfrinachol yn rheolaidd.
- 2.6 Rhaid i staff sydd wedi derbyn cymeradwyaeth i weithio'n symudol neu awdurdod i weithio o gartref neu leoliad gwaith arall gael trefnau mewn grym i ddiogelu gwybodaeth yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys gwaredu unrhyw wastraff mewn modd diogel. Dan amgylchiadau o'r fath, dylid dychwelyd yr wybodaeth hon i'r Cyngor i'w gwaredu drwy ei rhwygo neu ei gosod yn y cynwysyddion gwastraff cyfrinachol diogel lle'u bod ar gael. Mae arweiniad pellach ynglŷn â defnyddio systemau/cyfleusterau TG a chofnodion llawlyfr oddi ar y safle i'w gael ym mholisi Gweithio o Gartref/o Bell y Cyngor. Gweler yr wybodaeth ar y dolenni a ganlyn:

<http://intranet/section.asp?cat=2813&Language=2>

<http://intranet/doc.asp?doc=31142&cat=9992&Language=2>

3 TRAFOD GWYBODAETH SYMUDOL

- 3.1 Dylid dileu gwybodaeth gyfrinachol, gan gynnwys ar gyfrifiaduron, cyfrifiaduron glin, PDAs, ffonau symudol a dyfeisiadau storio eraill e.e. disgiau caled, disgiau hyblyg, tapiâu, CDs, DVDs, ffyn cof ac ati yn ddiogel cyn eu gwaredu.

Lle bo hynny'n briodol, anfonwch nhw at yr adran TG a fydd naill ai'n eu rhyddhau i'w hail-ddefnyddio neu ddarparu modd diogel i'w llosgi neu eu malu.

4 ADOLYGU'R POLISI AC YMWHYBYDDIAETH

- 4.1 Mae'n ofynnol i'r holl staff ddarllen, deall a chadw at yr egwyddorion a amlinellir yn nogfennau polisi'r Cyngor.
- 4.2 Gallai unrhyw ddigwyddiad lle na chydymffurfiwyd â pholisi a threfn y Cyngor yn bwrpasol neu'n ddiogel arwain at gamau disgyblu ffurfiol.

5 UNED LYWODRAETHU GWYBODAETH

- 5.1 Lleolir Uned Lywodraethu Gwybodaeth y Cyngor ym Modlondeb, a'i chyfrifoldeb yw hwyluso a rhoi cyngor ar gydymffuriad y Cyngor gyda Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998 ar lefel gorfforaethol, a chefnogi Gwasanaethau/ Adrannau'r

Polisi Gwastraff Cyfrinachol Fersiwn 3.1

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

Cyngor. Mae'r Uned yn rhan o'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Chwsmeriaid Corfforaethol.

Manylion cyswllt:

Uned Lywodraethu Gwybodaeth
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
 Gwasanaethau Gwybodaeth a Chwsmeriaid Corfforaethol
 Bodlondeb
 CONWY
 LL32 8DU
 Ffôn: 01492 576070
 Ffacs: 01492 576085
 E-bost uned.llyw-gwyb@conwy.gov.uk

Esiampiau o ddata sydd angen eu gwaredu'n gyfrinachol

(D.S. nodwch nad yw rhai meysydd yn gyfrinachol ar eu pen eu hunain, ond dylid eu trin yn gyfrinachol pan eu bod yn gysylltiedig â chategoriâu eraill o wybodaeth gan eu bod yn helpu creu darlun o'r unigolyn.)

Enw a Chyfeiriad	Incwm / Cyflog	Hanes Gyrfa
Manylion cyswllt	Cyfrif Banc	CV, nodiadau cyfweliad
Dyddiad geni	Buddsoddiadau	Tystlythyrau
Oed, rhyw, ethnigrwydd	Hanes Credyd	Pecynnau lawndal
Disgrifiad Corfforol	Benthyciadau	Record Presenoldeb
Rhif Yswiriant Gwladol	Budd-daliadau	Cofnodion Gwyliau
Rhif Trwydded Yrru	Manylion Yswiriant	Cofnodion Salwch
Rhif Pasbort	Gwybodaeth Pensiynau	Cofnodion Gwerthuso
Statws / Hanes Priodasol	Cofnodion Academaidd	Cofnodion Disgyblaeth
Aelodau eraill y teulu	Cymwysterau / Sgiliau	Gwybodaeth Fasnachol Sensitif
Gwybodaeth Perthynas Agosaf	Cofnodion hyfforddiant	Achosion Llys
Gweithgaredd hamdden	Arbenigedd Proffesiynol	
Manylion Aelodaeth Clwb		

Tarddiad ethnig neu hil	Daliadau gwleidyddol	Daliadau crefyddol
Aelodaeth Undeb Llafur	Iechyd Corfforol / Meddyliol	Bywyd Rhywiol
Troseddau, honiadau, achosion, dedfrydau		